

Swyddogaeth Newydd ibTB Ionawr 2022: bydd ibTB hefyd bellach yn dangos am faint o flynyddoedd y mae buchesi yn Lloegr wedi bod yn rhydd rhag TB – Dysgwch sut yma...

Video Transcription

Adnodd mapio rhyngweithiol am ddim yw Information bTB neu ibTB, sy'n dangos lleoliad achosion o dwbercwlosis buchol yng Nghymru a Lloegr dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r wefan wedi'i chynllunio i helpu ceidwaid gwartheg a milfeddygon i wneud penderfyniadau hyddysg ynglŷn â gwarchod eu buchesi rhag TB buchol. I ddefnyddio ibTB, ewch i'r wefan www.ibtb.co.uk, neu gallwch gael mynediad drwy wefan TBhub.

O fis Ionawr 2022, yn ogystal â'r golwg achosion sy'n dangos data ar achosion presennol a blaenorol o bTB yn unig, bydd ibTB bellach yn dangos am faint o flynyddoedd y mae buchesi yn Lloegr wedi bod yn rhydd rhag TB hefyd. Dylid nodi bod hyn yn golygu y gallai bellach fod modd gweld pob buches o fewn ibTB, gan gynnwys buchesi lle na fu erioed achos o TB.

Drwy gyhoeddi'r wybodaeth ychwanegol hon, bydd modd i geidwaid gwartheg wneud penderfyniadau mwy hyddysg am y gwartheg y maent yn eu prynu a chymryd camau priodol i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwartheg newydd. Cafodd ymrwymiad i rannu'r fath wybodaeth ei gynnwys yn ymateb Defra i adolygiad yr Athro Godfray o'r strategaeth dileu TB yn Lloegr.

Sut mae gweld y golwg newydd yn ibTB?

- O dan yr opsiwn BUCHESI (sy'n mynd yn awtomatig i Achosion ar y dechrau)
- Dewiswch Graddau Iechyd
- Bydd neges yn ymddangos mewn coch yn dweud "Nid yw'r data i'w gweld ar y raddfa hon, cliciwch ar y botwm 'diweddarau'r map' er mwyn chwyddo i'r data".
- Cliciwch ar y botwm "diweddarau'r map" – Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio'r bar sgrolio i ddod o hyd iddo.
- Bydd y map yn dangos pob buches mewn lliw sy'n dangos faint o amser sydd wedi mynd heibio ers ei hachos diwethaf. Byddwch yn gallu llusgo'r map i'r ardal sydd o ddiddordeb i chi neu ddefnyddio adnodd chwilio Rhif BUCHESI y Daliad yn y gornel dde uchaf i fynd yno.
- Os hoffech weld is-set o fuchesi, e.e. dim ond buchesi lle na fu achos o bTB am o leiaf bum mlynedd rydych am eu gweld, newidiwch "Data i gyd" i ">5 mlynedd" a cliciwch ar "diweddarau'r map"

Os byddwch yn clicio ar ddot, byddwch yn gweld Rhif BUCHESI y Daliad a'r union categori y mae'r fuchesi yn perthyn iddo, ac os oes achos wedi'i gofnodi, byddwch yn gweld dyddiadau dechrau a gorffen yr achos diwethaf (dyddiadau TB2 a TB10). Os oes sawl buches mewn un lleoliad, gallwch fynd drwy'r achosion drwy glicio ar y saethau ar ben y blwch.

Mae ibTB ar gael yn ibtb.co.uk ac i gael rhagor o wybodaeth am TB buchol, ewch i TBhub yn tbhub.co.uk.